

Memorandwm Esboniadol: Y Bil Awtistiaeth (Cymru)

Teitl arfaethedig y Bil

1. Teitl arfaethedig y Bil yw y Bil Awtistiaeth (Cymru).

Amcanion polisi arfaethedig y Bil¹

2. Diben y Bil yw darparu ar gyfer diwallu anghenion plant ac oedolion sydd â chyflyrau ar y sbectrwm awtistig yng Nghymru, gyda'r nod o ddiogelu hawliau plant ac oedolion awtistig yng Nghymru a hyrwyddo'r hawliau hynny.
3. Byddai'r Bil hefyd yn cydnabod y cyflwr yn statudol, gan fod awtistiaeth yn gyflwr ynddo'i hun.
4. Byddai y Bil Awtistiaeth (Cymru) yn ceisio:
 - cyflwyno strategaeth ar gyfer diwallu anghenion plant ac oedolion yng Nghymru sydd â chyflyrau ar y sbectrwm awtistig;
 - sicrhau llwybr clir a chyson i gael diagnosis o awtistiaeth yn lleol;
 - sicrhau bod awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn deall ac yn cymryd y camau angenrheidiol fel bod plant ac oedolion sydd ag awtistiaeth yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt yn amserol (gallai hyn gynnwys, er enghraifft, rhoi dyletswyddau ar

¹Fel sy'n ofynnol yn ôl Rheol Sefydlog 26.91B, rwyf o'r farn bod yr amcanion polisi hyn yn gyson â'r hyn a nodwyd yn y wybodaeth a gyflwynwyd gennyf cyn y balot. O gymharu â'r wybodaeth a gyflwynwyd cyn y balot, mae'r wybodaeth ychwanegol o dan 'Amcanion polisi arfaethedig y Bil' wedi ei darparu er mwyn nodi'n gliriach i'r Aelodau beth yw fy syniadau ynghylch yr angen i gyflawni'r amcanion polisi hyn, ac i adlewyrchu'r gwaith ymchwil cychwynnol a thrafodaethau â rhanddeiliaid allweddol, fel y Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol.

- awdurdodau lleol a byrddau iechyd o ran trefnu cymorth ar gyfer pobl sydd ag awtistiaeth a'u teuluoedd, yn eu hardaloedd lleol);
- sefydlu arferion, gan gynnwys y posibilrwydd o greu cofrestr, er mwyn casglu data dibynadwy a pherthnasol ar niferoedd ac anghenion o ran plant ac oedolion awtistig fel y gall ardaloedd lleol gynllunio yn unol â hynny;
 - ei gwneud yn ofynnol bod staff allweddol sy'n gweithio gyda phobl sydd ag awtistiaeth yn cael hyfforddiant awtistiaeth;
 - sicrhau bod awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn cyhoeddi gwybodaeth am y gwasanaethau a ddarperir ganddynt i bobl sydd ag awtistiaeth yn eu hardaloedd; ac
 - adolygu'r strategaeth a'r canllawiau yn rheolaidd er mwyn sicrhau cynnydd.

5. Mae llawer o waith wedi ei wneud yn y blynyddoedd diwethaf i wella gwasanaethau i bobl sydd ag awtistiaeth, eu teuluoedd a'u gofalwyr. Roedd Cynllun Gweithredu Strategol arloesol Llywodraeth Cymru ar gyfer Anhwylderau'r Sbectwm Awtistig, a gyhoeddwyd yn 2008, yn sicrhau bod seilwaith ar gyfer awtistiaeth ym mhob ardal awdurdod lleol, gyda chydlynwyr a strategaethau lleol, a chydlynnydd cenedlaethol ar gyfer Cymru. Roedd yn gwella'r capasiti ar gyfer gwaith ymchwil, gan godi proffil awtistiaeth a sicrhau bod amrywiaeth o wybodaeth ac adnoddau o safon uchel ar gael i ddefnyddwyr gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol. Darparwyd arian ychwanegol i awdurdodau lleol, ond dim ond hyd at fis Ebrill 2015 y cafodd yr arian hwn ei neilltuo.

6. Roedd y Cynllun Gweithredu Strategol yn cydnabod yr angen am wasanaethau diagnostig gwell i blant ac oedolion sydd ag awtistiaeth. Arweiniodd mentrau codi ymwybyddiaeth at gynnydd yn y galw am ddiagnosis, ond gan ymestyn amseroedd aros am asesiad hefyd. Mae

llawer o bobl yn cael trafferth o hyd wrth gael mynediad at asesiadau mewn rhai ardaloedd.

7. Roedd y Cynllun Gweithredu Strategol yn cydnabod hefyd fod angen gwaith i hyrwyddo'r arfer o gyflogi pobl sydd ag awtistiaeth a darparu cymorth cyflogaeth i unigolion. Roedd Llysgennad Cyflogaeth Awtistiaeth yn codi ymwybyddiaeth ac yn darparu hyfforddiant ar awtistiaeth i gyflogwyr a darparwyr cymorth cyflogaeth hyd at fis Ebrill 2016. Serch hynny, mae cyfraddau cyflogaeth ymhlith pobl ifanc yn parhau i fod yn llawer is na chyfraddau'r boblogaeth yn gyffredinol ac mae angen gwaith pellach i fynd i'r afael â hyn.

8. Mae'n amlwg, felly, er bod y Cynllun Gweithredu Strategol wedi helpu i wella gwasanaethau mewn llawer o ardaloedd lleol a chodi ymwybyddiaeth o awtistiaeth, bod problemau'n parhau. Mae gwerthusiad o'r Cynllun Gweithredu Strategol, a gwaith grwpiau gorchwyl a gorffen awtistiaeth wedi nodi'r bylchau sy'n parhau mewn gwasanaethau, yn enwedig o ran diagnosis, y cyfnod pontio wrth ddod yn oedolyn, cymorth cyflogaeth, a mynediad at wybodaeth am wasanaethau.

9. Mae llawer o bobl sydd ag awtistiaeth, a'u teuluoedd, nad ydynt yn cael y gwasanaethau a'r cymorth sydd eu hangen arnynt o hyd, a fyddai'n eu galluogi i ymdopi â'r heriau a ddaw yn sgil awtistiaeth ac i gyflawni eu potensial. Er bod arfer da a gwasanaethau ymatebol i'w gweld mewn rhai ardaloedd, mae darpariaeth yn parhau'n anghyson ledled Cymru am fod y Cynllun Gweithredu Strategol yn canolbwyntio ar y sefyllfa leol. At hynny, oherwydd natur wirfoddol y seilwaith lleol o ran awtistiaeth, mae'n fwy effeithiol mewn rhai ardaloedd nag eraill. Mae angen sicrhau bod pobl sydd ag awtistiaeth yn cael cymorth o safon ble bynnag y maent yn byw.

10. Mae diweddariad o'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer 2016–20 yn cyflwyno rhagor o ddiwygiadau, gan gynnwys gwelliannau i wasanaethau diagnostig ac amseroedd aros, datblygu gwasanaeth awtistiaeth integredig cenedlaethol, a mesurau i wella addysg a chyflogaeth i bobl sydd ag awtistiaeth. Mae'r datblygiadau ym maes cymorth addysg yn cynnwys cyflwyno'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru). Mae gwaith craffu yn mynd rhagddo ar y Bil o dan broses ddeddfwriaethol y Cynulliad ar hyn o bryd ac, yn amodol ar gymeradwyaeth Aelodau'r Cynulliad, dylai gael Cydsyniad Brenhinol tua diwedd 2017. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ymgynghori ar opsiynau ar gyfer trosglwyddo i'r system newydd.

11. Mae'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) yn darparu fframwaith statudol sengl ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc sydd ag anghenion addysg ychwanegol (ADY), gan gynnwys awtistiaeth, tra byddant yn blant a hyd at 25 oed, pan fyddant mewn addysg bellach. Bydd y Bil ADY yn cyflwyno *Cynlluniau Datblygu Unigol* statudol ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc sydd ag ADY, gan ddisodli'r system bresennol sy'n seiliedig ar y term 'anghenion addysgol arbennig' a Datganiadau. Nod y Bil ADY yw gwella'r cydweithio rhwng byrddau iechyd/awdurdodau lleol a datblygu system decach, mwy tryloyw a llai gwrthwynebus o gymorth i blant a phobl ifanc sydd ag ADY.

12. Croesewir y gwaith a wnaed gan Lywodraeth Cymru yn y blynyddoedd diwethaf; mae'r Bil arfaethedig yn ceisio ychwanegu at y mesurau hyn yn hytrach na'u disodli. Er enghraifft, er nad yw'n ymwneud yn benodol â chymorth awtistiaeth mewn lleoliadau addysgol, byddai'r Bil Awtistiaeth (Cymru) yn ategu darpariaethau'r Bil ADY. Byddai'r Bil Awtistiaeth (Cymru) arfaethedig yn cefnogi'r broses o gyflwyno'r Bil ADY, er enghraifft, drwy sicrhau bod staff allweddol sy'n gweithio gyda phobl sydd ag awtistiaeth, gan gynnwys athrawon, yn

cael hyfforddiant awtistiaeth. Mae nifer sylweddol o staff sy'n gweithio gyda phobl sydd ag awtistiaeth eisoes wedi cael hyfforddiant drwy fentrau a arweinir gan Lywodraeth Cymru, ond byddai deddfwriaeth yn fodd i hyrwyddo cysondeb o ran safonau hyfforddiant yn y gwahanol rhanbarthau, byddai'n cynnig ffordd glir o fonitro'r gwaith o gyflwyno a chynnal safonau o'r fath a byddai'n sicrhau y gellid darparu hyfforddiant o'r fath yn barhaus ac yn barhaol.

13. Dyma un o brif swyddogaethau'r Bil: sicrhau bod gwasanaethau awtistiaeth cyson a pharhaus yn cael eu darparu ledled Cymru.

Y tu hwnt i gyfnod y diweddariad o'r Cynllun Gweithredu Strategol awtistiaeth ar gyfer 2016–20, nid oes sicrwydd y bydd gwasanaethau awtistiaeth yn parhau i gael eu blaenoriaethu. Mae deddfwriaeth ar waith yn Lloegr a Gogledd Iwerddon sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r llywodraethau yno gyhoeddi strategaeth awtistiaeth ar gyfer oedolion, ac i blant ac oedolion yn y drefn honno. Mae'r profiadau yno'n dangos bod angen deddfwriaeth i sicrhau na chollir y momentwm i wella.

14. Drwy greu gofyniad cyfreithiol i gyhoeddi strategaeth awtistiaeth, byddai'r Bil arfaethedig yn helpu i sicrhau rhywfaint o sefydlogrwydd a chynaliadwyedd mewn gwasanaethau gofal a chymorth i bobl sydd ag awtistiaeth. Byddai'n sicrhau ffocws parhaus a phenodedig ar anghenion pobl sydd ag awtistiaeth, beth bynnag fo'r hinsawdd ariannol neu wleidyddol ar y pryd.

15. Mewn sawl rhan o Gymru, nid oes gwybodaeth glir ychwaith ar gael i'r cyhoedd ynglŷn â llwybrau i ddiagnosis. Mae cael diagnosis o awtistiaeth yn rhoi rhywfaint o sicrwydd i lawer o unigolion a'u teuluoedd, a gwell ddealltwriaeth o'r anawsterau y maent yn eu hwynebu. Mae'n allweddol hefyd i gael mynediad at wasanaethau.

16. Byddai darparu, drwy ddeddfwriaeth, ar gyfer llwybr clir ym mhob ardal bwrdd iechyd yn rhoi'r eglurder a'r sicrwydd angenrheidiol i bobl sydd ag awtistiaeth a'u teuluoedd o ran y broses o gael diagnosis. Byddai hefyd yn golygu bod byrddau iechyd yn atebol yn gyfreithiol am ddarparu llwybr clir.

17. Darperir gwasanaethau awtistiaeth yn aml drwy wasanaethau anabledd dysgu neu iechyd meddwl, er y gallai fod gan bobl sydd ag awtistiaeth anghenion nad ydynt yn cyfateb â'r categorïau hyn. Mae perygl y bydd pobl sydd ag awtistiaeth yn disgyn i'r bylchau rhwng gwasanaethau nad ydynt yn ymatebol i'w hanghenion neu sy'n gosod meini prawf amhriodol (fel lefel IQ) ar gyfer mynediad. Gwnaeth y grŵp gorchwyl a gorffen ar gyfer oedolion sydd ag anhwylderau ar y sbectrwm awtistig gydnabod y broblem hon a galw am ddulliau asesu gwell a gwell hyfforddiant i'r staff sy'n gweithio yn y gwasanaethau hyn.

18. Mae *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014* yn hyrwyddo asesiadau a gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y person, ac yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi codau (a allai gynnwys cod sy'n ymwneud ag anghenion pobl sydd ag awtistiaeth), ar sut i arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Fodd bynnag, hyd yma, nid oes unrhyw god o'r fath wedi'i gyhoeddi. At hynny, mae anghenion pobl sydd ag awtistiaeth yn ymestyn y tu hwnt i swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Ar y llaw arall, byddai'r Bil arfaethedig yn sicrhau bod byrddau iechyd ac awdurdodau lleol yn deall anghenion penodol plant ac oedolion sydd ag awtistiaeth ac yn darparu ystod gyfannol o wasanaethau i'w diwallu.

19. Er mwyn darparu gwasanaethau effeithiol, mae angen i fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol wybod beth yw maint yr angen yn eu hardaloedd. O dan *Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*, mae ganddynt ddyletswydd i asesu lefelau'r angen am

wasanaethau gofal a chymorth yn eu hardaloedd ac ystod a lefel y gwasanaethau sydd eu hangen i ddiwallu'r angen hwnnw. Un o themâu craidd yr asesiadau poblogaeth hyn yw anabledd dysgu/awtistiaeth. Disgwylir i awdurdodau lleol hefyd lunio cofrestrau o bobl anabl yn eu hardaloedd. Fodd bynnag, yn ôl y dystiolaeth anecdotaidd, mae cwmpas a chywirdeb y wybodaeth a gasglwyd yn amrywio'n fawr. Mae'n bwysig bod unrhyw asesiad o'r boblogaeth yn nodi ac yn cydnabod anghenion penodol pobl sydd ag awtistiaeth, heb fod risg i'r cyflwr gael ei gynnwys fel anabledd dysgu. Bydd hyn yn galluogi byrddau iechyd ac awdurdodau lleol i fynd i'r afael â'r bylchau yn y gwasanaethau a ddarperir yn lleol.

20. Byddai'r Bil arfaethedig yn gosod gofyniad clir ar fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol i fynd ati i gasglu data ynghylch niferoedd ac anghenion o ran plant ac oedolion awtistig fel y gall ardaloedd lleol gynllunio gwasanaethau yn unol â hynny.

Manylion unrhyw gefnogaeth a gafwyd ar gyfer y Bil, gan gynnwys manylion unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd

21. Mae cryn gefnogaeth i'r Bil Awtistiaeth (Cymru) ymhlith y cyhoedd, ac mae canlyniadau nifer o ymgynghoriadau cyhoeddus a gynhaliwyd yn y blynyddoedd diwethaf yn brawf o hynny.

22. Cynhaliodd y Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth arolwg ar-lein o bobl awtistig sy'n byw yng Nghymru, a'u rhieni neu eu gofalwyr, rhwng mis Mai a mis Mehefin 2015. Dywedodd bron 90 y cant o'r 668 o ymatebwyr fod angen deddfwriaeth benodol ynghylch awtistiaeth yng Nghymru.²

²Deddf Nawr, Deddf Awtistiaeth i Gymru, Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru, <http://www.autism.org.uk/get-involved/campaign/wales/act%20now.aspx>

23. At hynny, mae 5,309 o bobl (fel ar 20 Ebrill 2017) wedi llofnodi deiseb ar wefan '38 degrees' yn galw am gyflwyno Deddf Awtistiaeth i Gymru er mwyn:

- sicrhau y gall plant ac oedolion sydd ag awtistiaeth yng Nghymru gael diagnosis yn brydlon;
- gwella dealltwriaeth o awtistiaeth ymhlith gweithwyr proffesiynol allweddol; a
- chyflwyno dyletswyddau fel bod yr holl awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn cymryd camau i sicrhau bod plant ac oedolion sydd ag awtistiaeth yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt.³

24. Ers i fy nghynnig gael ei ddewis yn y balot ar gyfer Bil Aelod ar 28 Mawrth 2017, rwyf wedi cael cefnogaeth gan amrywiaeth o elusennau awtistiaeth, gan gynnwys Creatasmiles, Autistic Women's Empowerment Project, Autism Directory, Yourspace, Autistic UK, Denbigh Men's Shed, Rainbow Biz a Chymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru, sydd â 14 o ganghennau ledled Cymru, gan gynnwys:

- [Cangen CGA Blaenau Gwent](#);
- [Cangen CGA Pen-y-bont ar Ogwr a'r Cylch](#);
- [Cangen CGA Caerffili](#);
- [Cangen CGA Caerdydd a'r Fro](#);
- [Cangen CGA Sir Gaerfyrddin](#);
- [Cangen CGA Sir Ddinbych a Chonwy](#) ;
- [Cangen CGA Merthyr Tudful](#);
- [Cangen CGA Castell-nedd a Phort Talbot](#);

³ "Act Now: We need an Autism Act for Wales", deiseb a grëwyd gan Meleri Thomas <https://you.38degrees.org.uk/petitions/act-now-we-need-an-autism-act-for-wales>

- [Cangen CGA Casnewydd](#);
- [Cangen CGA Sir Benfro](#);
- [Cangen CGA De Powys](#);
- [Cangen CGA Abertawe](#);
- [Cangen CGA Wrecsam](#); a
- [Changen Ystradgynlais a'r Cylch](#).

25. Nododd y Grŵp Trawsbleidiol ar Awtistiaeth fod angen Bil Awtistiaeth yn y Pedwerydd Cynulliad hefyd. Ar 19 Tachwedd 2014, bu'r grŵp yn trafod yr angen am Fil o'r fath, ar ôl clywed gan CGA Cymru, cynrychiolwyr cangen, Grŵp Cefnogi Awtistiaeth Merthyr Tydful, a rhiant i berson sydd ag awtistiaeth. Roedd cofnodion y cyfarfod yn nodi bod y naw Aelod Cynulliad wedi pleidleisio "yn unfrydol o blaid galw am Ddeddf."⁴

⁴Grŵp Trawsbleidiol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Awtistiaeth, 19 Tachwedd 2014, <http://www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s35180/Cofnodion%2019%20Tachwedd%202014.pdf>

Aseiad cychwynnol o unrhyw gostau a/neu arbedion sy'n deillio o'r Bil

26. O dan Reol Sefydlog 26.91A(iv), mae gofyniad am aseiad cychwynnol o unrhyw gostau a/neu arbedion sy'n deillio o'r Bil. Rwyf wedi nodi'r prif opsiynau y byddaf yn eu hystyried o ran sut y bydd y Bil hwn yn cael ei ddatblygu, ond y bwriad fyddai lleihau goblygiadau'r Bil o ran cost a sicrhau ei fod yn cyflawni ei fwriad datganedig ar yr un pryd.

27. Wrth ddatblygu'r Bil hwn, bydd yn bwysig cael gwell ddealltwriaeth o nifer yr oedolion a phlant a allai gael budd o'r Bil a'r ffordd orau o drefnu gwasanaethau er mwyn rhoi diagnosis a sicrhau bod llwybrau'n cael eu cydgysylltu a bod digon o adnoddau ar gael ar eu cyfer. Felly, byddaf yn ymchwilio i nifer y bobl a fyddai'n cael budd o'r Bil hwn, ac yn cysylltu â chyrff llywodraeth leol a chyrff y GIG ynghylch y drefn o ran nodi a rhoi diagnosis i'r bobl hyn, er mwyn llywio'r aseiad effaith ar gyfer cyflwyno'r Bil hwn os yw'r bleidlais i roi caniatâd i mi fwrw ymlaen yn llwyddiannus.

28. Dyma'r prif feysydd o ran costau a manteision posibl ar ôl cyflwyno'r Bil:

- ysgrifennu strategaeth a chyhoeddi canllawiau a rhoi gwybod am newidiadau i ddeddfwriaeth;
- dyletswyddau ychwanegol lle y bydd awdurdodau lleol a chyrff y GIG yn gweithredu'n unol â chanllawiau;
- creu a chynnal arferion er mwyn casglu data ynghylch niferoedd ac anghenion o ran oedolion a phlant sydd ag awtistiaeth;
- hyfforddiant ar gyfer awdurdodau lleol a staff y GIG;
- bydd arbedion o ganlyniad i nodi a chynorthwyo unigolion sydd ag awtistiaeth yn effeithiol.

Strategaeth awtistiaeth a chyhoeddi canllawiau.

29. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi strategaeth awtistiaeth genedlaethol a chyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol a chyrrff y GIG ar y broses o roi'r strategaeth honno ar waith. Bydd Llywodraeth Cymru yn talu rhai costau sy'n gysylltiedig â'r gwaith paratoi a'r ymgynghoriad a fydd yn llywio'r strategaeth, ond ni ddisgwylir i'r costau hyn fod llawer yn uwch na'r costau presennol. Ar gyfer Bil Awtistiaeth yr Alban, paratowyd costau yn 2010 ar gyfer ymgynghori ar strategaeth awtistiaeth genedlaethol yn yr Alban, a'i chyhoeddi ynghyd â chanllawiau. Amcangyfrifwyd na fyddai'r gost yn fwy na £5,000 (£5,400 yn ôl y prisiau presennol), i'w thalu gan Lywodraeth yr Alban⁵. O ystyried y gwaith a wnaed eisoes gan Lywodraeth Cymru ar ei strategaeth awtistiaeth ei hun, ni ddylai'r costau fod yn uwch na'r ffigur hwn. Un o'r prif faterion a nodwyd i mi yw bod angen sicrhau cysondeb ledled Cymru o ran ymwybyddiaeth teuluoedd o'r gwasanaethau sydd ar gael iddynt a ble y gallant fynd i gael gafael ar y wybodaeth hon. Costau trosiannol fyddai'r rhain. Disgwylir y byddai angen diwygio'r strategaeth o dro i dro, fel sy'n digwydd gyda strategaeth bresennol Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd.

Y ddyletswydd i awdurdodau lleol a chyrrff y GIG weithredu'n unol â chanllawiau.

30. Bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu ar gynnwys y strategaeth a'r canllawiau ar ôl ymgynghori. Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Bil hwn, byddaf yn ymchwilio i nifer y bobl a fyddai'n cael budd o'r Bil hwn. Yn benodol, byddaf yn ymgynghori â llywodraeth leol a chyrrff y GIG ynghylch y ffordd orau o nodi pobl a rhoi diagnosis iddynt er mwyn paratoi asesiad effaith i gyd-fynd â'r Bil pan fo'n cael ei gyflwyno. Dylai fod modd i gynllunio gwaith monitro i gyd-fynd â

⁵ Y Bil Awtistiaeth (yr Alban), Nodiadau Esboniadol, 24 Mai 2010, [http://www.parliament.scot/S3_Bills/Autism%20\(Scotland\)%20Bill/b44s3-intro-en.pdf](http://www.parliament.scot/S3_Bills/Autism%20(Scotland)%20Bill/b44s3-intro-en.pdf)

gofynion a chyfarfodydd rheolaidd y GIG ac awdurdodau lleol o ran atebolrwydd. Hyd nes y byddwn yn gwybod faint o bobl y bydd y Bil yn effeithio arnynt, a chynnwys y strategaeth a'r dogfennau canllaw, nid yw'n bosibl amcangyfrif y costau a ysgwyddir gan awdurdodau lleol a chyrrff y GIG yn sgil y strategaeth a'r canllawiau wrth arfer y swyddogaethau perthnasol na'r buddiannau a ddaw yn sgil buddsoddiad o'r fath⁶. Fodd bynnag, byddaf yn gweithio gyda rhanddeiliaid a Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn cefnogi polisi presennol Llywodraeth Cymru, yn adeiladu arno ac yn ystyried sut y gellir lleihau costau parhaus a sicrhau cymaint o fuddiannau â phosibl.

31. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 eisoes yn rhoi dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i sefydlu gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth i gefnogi pobl sydd ag awtistiaeth, eu teuluoedd a'u gofalwyr. Gallai hyn gael ei ymestyn i gyhoeddi gwybodaeth am wasanaethau yn benodol ar gyfer pobl sydd ag awtistiaeth yn rhanbarth yr awdurdod lleol heb fawr ddim costau ychwanegol os o gwbl. Mae'r [Diweddariad o'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer 2016–2020](#) yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd lleol ddarparu cyngor a chymorth i bawb sydd ag awtistiaeth gan gynnwys teulu a gofalwyr⁷. Gallai hyn gael ei ymestyn hefyd i gynnwys codi ymwybyddiaeth gan fyrddau iechyd lleol fel rhan o'r Bil am **fawr ddim cost ychwanegol os o gwbl**.

⁶ Fel y gwelir yn y Bil Awtistiaeth (yr Alban), Nodiadau Esboniadol, 24 Mai 2010, [http://www.parliament.scot/S3_Bills/Autism%20\(Scotland\)%20Bill/b44s3-intro-en.pdf](http://www.parliament.scot/S3_Bills/Autism%20(Scotland)%20Bill/b44s3-intro-en.pdf)

⁷ Y Diweddariad o'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer 2016-2020, Llywodraeth Cymru, <http://www.asdinfoales.co.uk/resource/161130ASD-deliveryplancy.pdf>

Casglu data o ran niferoedd ac anghenion oedolion a phlant sydd ag awtistiaeth.

32. Mae ystadegau'n dangos y gallai 1 o bob 100 o bobl fod ar y sbectrwm awtistiaeth yn y DU⁸. O gofio mai cyfanswm poblogaeth Cymru yw 3.1 miliwn, mae hynny'n gyfystyr â 31,000 o bobl ar y sbectrwm awtistiaeth yng Nghymru.

Hyfforddiant i staff awdurdodau lleol a staff y GIG.

33. Byddai'r Bil Awtistiaeth (Cymru) arfaethedig yn cefnogi'r broses o gyflwyno Bil ADY, er enghraifft, drwy sicrhau bod staff allweddol sy'n gweithio gyda phobl sydd ag awtistiaeth, gan gynnwys athrawon, yn cael hyfforddiant awtistiaeth. Mae nifer sylweddol o staff sy'n gweithio gyda phobl sydd ag awtistiaeth eisoes wedi cael hyfforddiant drwy fentrau a arweinir gan Lywodraeth Cymru, ond byddai deddfwriaeth yn fodd i hyrwyddo cysondeb o ran safonau hyfforddiant yn y gwahanol ranbarthau, byddai'n cynnig ffordd glir o fonitro'r gwaith o gyflwyno a chynnal safonau o'r fath a byddai'n sicrhau y gellid darparu hyfforddiant o'r fath yn barhaus ac yn barhaol. Fel rhan o'r broses o ddatblygu'r Bil, bydd angen ystyried a yw'r hyfforddiant a ddarperir ar hyn o bryd yn ddigonol. Os penderfynir bod angen rhagor o hyfforddiant, yna caiff y gost ei chyfrifo fel rhan o'r asesiad effaith ar gyfer y Bil Drafft.

34. Y brif gost i awdurdodau lleol yw cost yr adnoddau ychwanegol i sefydlu arferion casglu a rheoli data yn y lle cyntaf. Unwaith y byddant wedi'u sefydlu, y disgwyliad yw na fyddai angen cymaint o adnoddau i gynnal y data ac y byddai'r broses o nodi pobl sydd ag awtistiaeth yn cynnwys ychwanegu'r person at y gronfa ddata hon. Rhagwelir y byddai'n bosibl creu cronfa ddata gychwynnol gan ddefnyddio cronfeydd data presennol ysgolion a'r GIG, y gellid ychwanegu atynt

⁸ Autism Facts and History, National Autistic Society, <http://www.autism.org.uk/about/what-is/myths-facts-stats.aspx>

dros gyfnod o amser. Ni fyddai'r dull hwn yn costio llawer yn y lle cyntaf a gellid ychwanegu ato bob blwyddyn wrth i bobl gael diagnosis a chael eu hychwanegu at y gronfa ddata fel rhan o ofynion y Bil hwn.

35. Rwyf wedi cymryd yn ganiataol mai swyddogion gweinyddol o'r sector cyhoeddus fydd y staff sy'n gyfrifol am ddatblygu'r gronfa ddata. Mae data dros dro yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion ar gyfer 2016 yn dangos yr enillion gros canolrifol fesul awr yng Nghymru yn 2016 ar gyfer galwedigaethau gweinyddol: y swm ar gyfer llywodraeth a sefydliadau cysylltiedig yw £10.94⁹. Ar ôl ychwanegu costau o tua 20 y cant, daw hynny at gyfanswm cost fesul awr o £13.12.

36. Y sefyllfa waethaf bosibl fyddai gorfod creu cronfa ddata o'r newydd, a bod 1 y cant o bobl yng Nghymru yn cael eu nodi'n awtistig. Rwyf wedi cymryd yn ganiataol y byddai'n cymryd 20 munud ar gyfartaledd i unigolyn ychwanegu un person at y gronfa ddata (yn dibynnu ar y wybodaeth y bydd Gweinidogion Cymru yn gofyn amdani). Amcangyfrifir y byddai cyfanswm y gost ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru tua £135,000 (31,000 x £13.12 cost fesul awr/ar sail tri chofnod yr awr). Mewn gwirionedd, rwy'n gwybod mai dim ond cyfran o'r bobl ar y sbectrwm awtistig yng Nghymru sydd wedi cael diagnosis ac mae'n debygol y gellid defnyddio gwybodaeth sydd ar gael eisoes i lenwi'r gronfa ddata. Er enghraifft, mae potensial ar gyfer datblygiadau pellach o ran casglu data, gan fod NICE yn Lloegr wrthi'n ystyried a ddylid gwneud cofrestrau awtistiaeth yn ofynnol mewn meddygfeydd teulu. Bydd yr ychwanegiadau at y gronfa ddata yn cael eu gwneud yn raddol wrth i fwy o bobl gael diagnosis, felly byddwn yn disgwyl i'r costau fod llawer yn is ac iddynt gael eu lledaenu dros gyfnod hwy.

⁹ Fel y nodir ym mharagraff 8.24, Memorandwm Esboniadol Bil yr Undebau Llafur (Cymru), Ionawr 2017, <http://www.cynulliad.cymru/laid%20documents/pri-ld10895-em/pri-ld10895-em-w.pdf>

Arbedion.

37. Yn ei gyhoeddiad, "[Supporting people with autism through adulthood](#)", pwysleisiodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol pe bai gwasanaethau'n nodi ac yn cefnogi pedwar y cant o'r oedolion sydd ag awtistiaeth gweithredu lefel uchel yn yr ardal leol, yna byddai'r gwariant yn gost niwtral dros gyfnod o amser yn Lloegr¹⁰. Pe bai chwech y cant neu wyth y cant yn cael eu nodi, gallai hynny arwain at arbedion posibl o £38 miliwn a £67 miliwn y flwyddyn yn y drefn honno. Mae hynny'n dystiolaeth y gellid sicrhau arbedion os gellid nodi a chefnogi unigolion sydd ag awtistiaeth gweithredu lefel uchel yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl cyfrifo'r ffigurau ar gyfer Cymru ar hyn o bryd o ystyried yr ansicrwydd ynghylch cyfradd y bobl a gaiff eu nodi o ganlyniad i'r strategaeth.

¹⁰ Supporting people with Autism through adulthood, Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, 5 Mehefin 2009, <https://www.nao.org.uk/wp-content/uploads/2009/06/0809556.pdf>